

TAFLENNI FFEITHIAU

THEATR Y SHERMAN

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU



CEFNOGWYD GAN YR ESMÉE FAIRBAIRN FOUNDATION

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU– TAFLENNI FFEITHIAU

Diolch i chi am ymuno â rhaglen Theatr y Sherman, Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu, sy'n rhad ac am ddim.

Wedi'i ariannu drwy gefnogaeth hael yr Esmée Fairbairn Foundation, cynlluniwyd y rhaglen hon i gefnogi datblygiad sgiliau llafar a llythrennedd trwy ysgrifennu dramâu, mewn rhaglen sydd wedi'i hanelu'n benodol at bobl ifanc rhwng 15 a 18 oed. Rydym yn dod ag awduron proffesiynol, cyfarwyddwyr, actorion a'n cyfranogwyr at ei gilydd mewn sesiynau creadigol hwyliog a heriol, sy'n ceisio meithrin lleisiau Cymreig y dyfodol. Er bod y sesiynau wythnosol wedi'u hatal dros dro oherwydd canllawiau cyfredol y llywodraeth rydym yn cynnal sesiynau trwy Zoom, ac mae croeso i unrhyw bobl ifanc rhwng 15 a 18 oed ymuno â nhw.

Mae'r casgliad hwn o daflenni ffeithiau a geirfa helaeth wedi eu creu er mwyn cefnogi'r gwaith y mae'r awduron wedi'i ddechrau yn eu sesiynau fideo. Rydym ni'n dychmygu y gallai tasgau pob awdur lenwi un sesiwn â'ch myfyrwyr, ond y gallwch chi wedyn gyfuno technegau a'u defnyddio mewn ystod o ffyrdd er mwyn gweithio ar eu hysgrifennu creadigol.

Er bod y rhaglen hon wedi'i hanelu at bobl ifanc 15 - 18 oed rydym yn sicr y bydd pob myfyriwr sydd mewn addysg uwchradd yn elwa o ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol ac felly rydym wedi cyflwyno'r gweithdai mewn modd sy'n cwmpasu sbectwm eang o oeddrannau. Fodd bynnag, chi'n sy'n adnabod eich myfyrwyr felly defnyddiwch pa bynnag ymarferion sy'n gweddu orau i'w anghenion nhw.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau ysgrifennu ac y byddwch chi eisiau rhannu gwaith eich pobl ifanc. Os oes gwaith arbennig yn cael ei greu, mae croeso i chi ei anfon atom a byddwn yn ymdrechu i gael rhywfaint o adborth proffesiynol i'ch myfyrwyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu os hoffech chi gofrestru pobl ifanc ar gyfer y cwrs llawn, yna mae croeso i chi gysylltu â ni trwy e-bost: itp@shermantheatre.co.uk.

Cynnwys

Stephanie Back	Tud 3
Jesse Britton	Tud 6
Jo Clifford	Tud 8
Seiriol Davies	Tud 11
Georgina Harris	Tud 13
Tracy Harris	Tud 16
Kyle Lima	Tud 19
Hannah McPake	Tud 22
Elgan Rhys	Tud 25
Alexandria Riley	Tud 28
Geirfa	Tud 30
Lluniau Tracy Harris	Tud 39

- Actor a gwneuthurwr theatr yw Steph. Mae hi'n fyddar ac yn defnyddio BSL (Iaith Arwyddion Prydain).
- Aeth i Brifysgol Reading i astudio Celfyddydau Theatr, Addysg ac Astudiaethau Byddar.
- Mae ei gwaith theatr yn cynnwys *You've Got Dragons*, *Romeo a Juliet*, *The Tempest* (Taking Flight Theatre Company) a 2023 (Illumine Theatre)
- Mae hi hefyd yn arweinydd Theatr Ieuencid i'r Byddar gyda Taking Flight Theatre.

Ymarfer 1 - Newid Rôl

Mae gan BSL ei strwythurau a'i reolau ei hun sy'n hollol wahanol i Saesneg llafar neu ysgrifenedig. Hoffai Steph i chi archwilio elfen o ramadeg BSL o'r enw 'Newid Rôl/Role Shift'. Nid oes angen i chi ddeall BSL i wneud yr ymarfer hwn, mewn gwirionedd nid yw'n ymarfer iaith-benodol o gwbl. *Gallwch ddefnyddio pa bynnag iaith rydych chi'n ei hoffi - neu hyd yn oed ystumiau; beth bynnag sy'n addas i chi.*

Yn gyntaf, dewch o hyd i le yn yr ystafell ar eich pen eich hun. *Er bod yr ymarfer yn ymwneud â chael sgwrs byddwch yn gweithio ar eich pen eich hun.*

Dechreuwch trwy symud eich ysgwyddau o ochr i ochr - newid eich ysgwydd chwith neu dde i'r tu blaen. Dyma ddau gymeriad.

- Ysgwydd Chwith - Cymeriad 1 ac Ysgwydd Dde - Cymeriad 2.

Sierhewch fod eich dau gymeriad yn cynnal cyswllt llygad (i ddechrau dylai'r cymeriadau fod yr un taldra â chi).

Dechreuwch gael sgwrs syml fel hynny:

Ysgwydd Chwith: Helo.

Ysgwydd Dde: Helo.

Ysgwydd Chwith: Sut wyt ti?

Ysgwydd Dde: Dwi'n iawn diolch.

Nawr dechreuwch addasu y cyswllt llygad.

Beth sy'n digwydd pan fydd un o'r cymeriadau yn gwneud cyswllt llygad uwch neu is?

Sut mae eu statws yn newid?

Ceisiwch greu cymeriadau talach/byrrach na chi - sut mae hyn yn eu newid?

Pwy yw'r cymeriadau nawr? - fel Steph gallwch gychwyn gyda rhiant a phlentyn.

Pwy arall allen nhw fod?

Nawr ceisiwch chwarae gydag ychwanegu deialog.

A yw newid taldra y cymeriadau yn newid sut rydych chi'n teimlo?

Gwnewch nodyn o unrhyw beth sy'n ymddangos yn ddiddorol.

Ychwanegwch at y rhestrau isod - naill ai yma neu yn eich llyfr nodiadau eich hun.



Peidiwch ag anghofio
cyngor Steph am fan
cychwyn i'r sgwrs:
'Ydw'
'Nac Ydw'
'Os gwelwch yn dda'
'Banana'

Emosiynau posib	Arddull Siarad	Osgo corfforol a'r gofod o amgylch y cymeriad
Hapus, Trist, Blin, Rhwystredig...	Cyflym, araf, clir, aneglur...	Mawr, Bach, Gwyllt, Dan Reolaeth...

Arbrofwch gyda chyfuniadau o'r rhain yn ogystal â'r gwahaniaeth taldra a'r cyswllt llygad.

Ysgrifennwch chi neu gofynnwch i rywun arall wneud nodyn o'r pethau rydych chi wedi'u dweud neu eu gwneud a allai ddatblygu'n gymeriadau neu sgysiau cyffrous.

Ymarfer 2 - Anifeiliaid Archwilio mathau o gymeriadau a manylu ar gefndir y cymeriadau.

Rydyn ni'n mynd i geisio dod o hyd i anifail sydd â nodweddion tebyg i ni. Dechreuwch gydag un dudalen ac ysgrifennwch y canlynol:

1. Sylwch ar eich nodweddion corfforol. *Fe allai rhain fod yn syml iawn neu fe allech chi gynnwys rhai o'r pethau isod.*

- Sut rydych yn sefyll (Gyda'ch traed yn llydan neu'n gul?)
- Traed
(Ydyn nhw'n gwynebu ymlaen, yn pwyntio i'r ochr neu am i mewn?)
- Dwylo (Ydyn nhw'n agored, mewn dwrn neu ydy'ch bysedd ar led?)
- Breichiau
(Ble ydych chi'n rhoi eich breichiau pan rydych chi wedi ymlacio?)
- Brest (Ydi eich brest wedi'i wthio allan neu yn crymu i mewn?)
- Gwddf (Ydi eich gwddf yn fyr neu'n hir?)
- Cefn (Ydi eich cefn fel bwa neu a yw'n syth?)
- Beth mae eich llygaid yn ei wneud? Ble ydych chi'n edrych?
- Pa ran o'ch corff sy'n eich arwain chi?
- Ydych chi'n symud yn gyflym neu'n araf?

Fe allech chi ddefnyddio drych os yw'n eich helpu chi neu fe allech chi hefyd ofyn i rywun arall wneud rhestr amdanoch chi, a'ch bod chi'n gwneud un amdanyn nhw.

2. Nawr edrychwch ar eich rhestr. Pa anifeiliaid sy'n rhannu rhai o'ch nodweddion?

Oes gennych chi wddf hir a'ch gwaelod yn tynnu allan? Fe allech chi fod yn alarch!

Efallai bod eich cefn wedi crymu ac yn symud yn araf. Fe allech chi fod yn sloth!

Nawr dilynwch gyfarwyddiadau Steph ar y fideo - gan ychwanegu mwy neu lai o nodweddion yr anifeiliaid a gweld sut mae hynny'n newid y cymeriad.

Tra eich bod yn fersiwn o'r anifail, gofynnwch i rywun arall dynnu lluniau ohonoch chi. Gallant arbrofi gyda phellter, uchder a lleoliad i gael llawer o wahanol onglau ohonoch chi.

Nawr edrychwch ar y lluniau hyn - Pwy yw'r person hwn? Beth mae nhw'n ei wneud? Pam mae nhw'n ei wneud? Oes ganddyn nhw enw?

Daliwch ati i ofyn cwestiynau. Gwnewch nodiadau ar y bobl hyn a welwch yn yr holl luniau. Ceiswch anghofio beth oeddech chi'n ei wneud mewn gwirionedd. Dychmygwch eu bod yn ddieithryn.

Gallai'r creu stori gefndirol fel hyn fod yn fan cychwyn stori hollol newydd.

- Mae Jesse Britton yn ddramodydd, cyfarwyddwr ac actor a gafodd ei fagu yng Ngwlad yr Haf ac a hyfforddodd ar gwrs Theatr Gyfoes Ysgol Actio East 15.
- Mae ei waith fel actor wedi cynnwys perfformiadau yn y Bristol Old Vic, Finborough Theatre a'r ICA.
- Mae wedi ysgrifennu a chyfarwyddo dwy o'i ddramâu gwreiddiol ei hun, Bound ac Enduring Song, ac wedi cyfarwyddo trydedd drama, Hiraeth.
- Ef yw sylfaenydd a chyfarwyddwr artistig Bear Trap Theatre Company.
- Enwebwyd Jesse am ei ddrama gyntaf, Bound ar gyfer Gwobr Dramodydd Mwyaf Addawol yr Evening Standard yn 2011.



Ymarfer 1 - **Naddo Ddim/ Gwna Fo'n Waeth**

meithrin gwreiddioldeb wrth adrodd straeon ac ymddiried yn eich dyfeisgarwch eich hun

Gellir gwneud hyn gartref, yn yr ysgol, yn yr awyr agored, unrhyw le lle mae wal a 2 berson!

1. ddechrau penderfynwch pwy yw 'A' a phwy yw 'B'.
2. Mae'r ddau berson yn dechrau gan wynebu'r wal. Heb drafod, rhaid iddynt daro'r wal ar yr un pryd.
3. Yna mae nhw'n troi ac yn wynebu i ffwrdd oddi wrth y wal gyda'i gilydd (os oes cynulleidfâ gallant edrych arnyn nhw).
4. Mae Person A yn dechrau dweud wrthym am yr hyn a ddigwyddodd bore heddiw ar ôl iddynt ddeffro.
5. Ar unrhyw adeg, gall Person B, ddweud '**Naddo ddim**'
6. Rhaid i Berson A newid cyfeiriad eu stori ar unwaith. Enghraifft ...
 - A: Felly, bore heddiw fe wnes i ddeffro. Fe gefais gawod. Fe wnes i wisgo ac es i lawr y grisiau i gael brecwast...
 - B: Naddo ddim
 - A: Es i lawr y grisiau i gael cinio
7. Wrth i'r stori barhau gall Person B herio Person A mor aml ag y dymunant drwy ddweud 'Naddo ddim'. Mae bob amser yn ein harwain i gyfeiriadau hwyliog ac mae'n darparu rhwystr creadigol defnyddiol.
8. Gall Person B hefyd ddweud '**Gwna Fo'n Waeth**', ac felly rhaid i Berson A wneud y stori'n waeth ar unwaith. Mae'r hon yn mynd allan o reolaeth yn eithaf cyflym ond mae'n llawer o hwyl.

Gallwch osod terfyn amser o 3 munud a gweld beth sy'n digwydd. Efallai y byddwch chi hyd yn oed eisiau nodi/trafod rhai pethau oedd yn ddiddorol neu oeddech chi'n meddwl eu bod yn wirioneddol greadigol.

Ymarfer 2 - Ysgrifennu Dramâu 10 Llinell

1. Dechreuwch gyda tudalen lân o bapur, ac i lawr yr ochr chwith ysgrifennwch enw cymeriadau 'A' a 'B' bob yn ail, hyd nes fod gennych ddeg llinell.
2. Dewisiwch leoliad ar gyfer yr olygfa.
3. Meddyliwch am rywle rydych yn ei adnabod yn dda; rhywle y gallwch chi weld pob rhan ohono a chofio'r arogl. Gall fod y tu fewn, yn yr awyr agored, mewn car, ar ben bryn. Unrhyw le.
4. Nawr fod gennym ein lleoliad, rydym ni ar fin dechrau ysgrifennu. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau:
 - Rhaid i un llinell gyfan fod mewn iaith arall.
 - Rhaid i un llinell gael ei hadrodd oddi ar y llwyfan
 - Rhaid i un llinell gynnwys yr ymadrodd 'fel yna oedd hi pan gefais i hi'
(*'It was like that when I got it' - neu unrhyw linell arall sy'n addas fel cyfyngiad*)
5. Gall y cymeriadau fod yn unrhyw un (ond dim ond dau gymeriad sy'n siarad/cael eu gweld)
6. Gosodwch gyfyngiad amser o 3 munud i ysgrifennu.
7. Byddwch yn llym a stopiwch ysgrifennu pan mae'r amser ydd yn stopio.
8. Darllenwch y ddeialog eich hun neu gyda ffrind.
9. Os ydych chi eisiau, gallwch chi gael 1 munud i ailysgrifennu. Ond dyna ni!
10. Drama wedi'i gorffen.

Mynd a phethau ymhellach: Gallwch chi ailadrodd hyn i greu golygfeydd sy'n digwydd yn union cyn ac ar ôl yr olygfa rydych chi wedi'i hysgrifennu. Gall y tair golygfa ffurfio dechrau, canol a diwedd y stori.

JO CLIFFORD

- Mae Jo yn Awdur, Perfformiwr, Bardd ac Athro
- Fe'i ganed yng Swydd Stafford ym 1951 a'i magu fel bachgen.
- Yn 7 oed anfonwyd hi i ysgol breswyl; yn ystod y cyfnod hwn (pan oedd hi'n 12 oed) bu farw ei mam yn sydyn. Darganfu ei hangerdd dros theatr pan chwaraeodd rolau menywod mewn dramâu ysgol, lle daeth yn amlwg iddi nad oedd hi'n wryw.
- Cyfarfu â'i phartner, Sue Innes, ym Mhrifysgol St Andrews ym 1971; parhaodd eu partneriaeth 33 mlynedd hyd at farwolaeth gynamserol Sue yn 2005.
- Yn niwedd yr wythdegau fe ysgrifennodd Jo gyfres o weithiau uchelgeisiol ar gyfer Theatr y Traverse, gyda phrif rannau yn cael eu rhoi i fenywod a niferoedd cyfartal o rannau i fenywod a dynion.
- Mae hi'n gyfieithydd blaenllaw sy'n gweithio drwy gyfrwng Sbaeneg, Ffrangeg a Phortiwgaleg, yn ogystal â dramodydd radio, ac addasydd nofelau ar gyfer radio a'r llwyfan.
- Ar ôl marwolaeth Sue, fe ffurfiodd ei hunaniaeth fenywaidd a dechrau ail-ddarganfod ei hun fel actores a pherfformiwr. Mae hi wedi ysgrifennu tua 100 o ddramâu ar gyfer pob cyfrwng dramatig.



Ymarfer 1

Dywed Jo wrthym ein bod i gyd yn gallu creu. Gallwn greu unrhyw beth, rhywbeth sy'n unigryw i chi. Dywed Jo fel hyn: *"Does dim rhaid iddyn nhw fod yn weir. Does dim cyweir nac anghyweir a does dim da a drwg."*

Beth a ddywedaf yn ôl? Ailchwarae ac ail-lunio'r olygfa

Dewiswch foment yn eich bywyd diweddar. Digwyddiad yr ydych yn dymuno y byddai wedi digwydd yn wahanol. Amser pan nad oedd gennych y geiriau iawn ar flaen eich tafod, pan nad oeddech wedi gallu dal eich tir neu pan na allech feddwl yn ddigon cyflym yn y foment.

- Ar ôl i chi ddewis yr olygfa neu'r foment, ysgrifennwch sut y byddech chi wedi hoffi i bethau droi allan
- Dewiswch y geiriau rydych chi eisiau eu dweud.
- Cymerwch amser i'w ailchwarae yn eich meddwl neu ei ysgrifennu.
- Arbrofwch gyda ffyrdd gwahanol y gallai pethau fod wedi digwydd.

A oes unrhyw ymadroddion diddorol yr ydych chi'n eu hoffi o fewn y cyfnewid? Gwnewch nodyn o'r rhain ar gyfer ysgrifennu yn y dyfodol.

Creu straeon am bobl

"Dyma'ch byd chi. Rydych chi'n rhydd i wneud, i ddweud, ac i deimlo beth bynnag yr ydych chi'n ei hoffi. Dyma'ch byd chi, ac ni all unrhyw un eich barnu."

Dewch o hyd i le i eistedd a gwylio pobl. Lleoliad da gyda digon o bobl yno. Gallai fod yn gaffi neu gornel stryd, efallai ei fod ar yr iard yn yr ysgol neu'r coridor.

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU– TAFLENNI FFEITHIAU

Nawr gwyliwch y bobl - dewiswch rywun sydd fwyaf diddorol yn eich barn chi. Mae nhw'n mynd i ddod yn gymeriad. Atebwch y cwestiynau canlynol amdanynt.

- Sut brofiad yw bod yn nhw?
- Sut mae nhw'n teimlo? Pam? (Dyfeisiwch reswm)
- Pam mae nhw'n gwisgo'r dillad yna?
- Os gallwch eu gweld yn cerdded, beth mae eu cerddeddiad yn ei ddweud wrthyhych amdanynt?
- Wnaethon nhw rywbeth doniol heddiw?
- Beth yw eu bywoliaeth/swydd?
- Pa fath o dŷ mae nhw'n byw ynddo?
- Sut fydden nhw'n cyflwyno'u hunain i chi?
- Rhowch enw iddyn nhw.

Gwnewch nodyn o'r rhain i gyd. Gallai hyn fod yn sail i gymeriad neu dylanwedd ar gyfer stori neu ddrama yn y dyfodol.

Ymarfer 2 - **Rhannu Straeon**

Yn y pen draw, mae ysgrifennu ar gyfer theatr yn ymwneud â rhannu'r hyn rydych chi wedi'i greu. Mae'n rhaid i chi gyfathrebu'r hyn y mae eich cymeriadau yn ei weld a'i deimlo.

Ar gyfer yr ymarfer hwn bydd angen i chi weithio mewn parau - mae pob un yn cymryd ei dro i fod yn siaradwr a gwrandawr.

- Dewiswch stori i'w hadrodd wrth eich partner - gall fod yn unrhyw beth sydd o ddiddordeb i chi neu'n eich cyffroi. Ond rhaid i chi ei dweud o'ch safbwynt chi. Digwyddodd hyn i chi! *Os ydych yn dewis adrodd stori am eich bywyd eich hun gwnewch yn siŵr nad oes ots gennyhych fod parwb arall yn ei chlywed.*
- Y cyfan sy'n rhaid i'r gwrandawr ei wneud yw gwrando; cadw cyswllt llygad a nodi naws, arddull ac ystumiau'r siaradwr.
- Peidiwch â thorri ar draws, rhoi sylwadau na barnu. Dim ond derbyn y stori a gwrando'n astud.
- Byddwch yn treulio 3 i 5 munud yn siarad a 3 i 5 munud yn gwrando. Yna newidiwch drosodd ac ailadrodd y broses.

Ar ôl hyn cymerwch ychydig o amser tawel, myfyriwch am y stori. Gwnewch nodyn o unrhyw beth pwysig ac ysgrifennwch sut rydych chi'n teimlo.

Nawr gweithiwch gyda rhywun arall ac ailadroddwch y broses ond y tro hwn rydych chi'n mynd i adrodd y stori rydych newydd ei chlywed. Ei wneud yn stori amdanoch chi eich hun, a dweud y stori yn y person cyntaf. Anrhydeddych y stori trwy fod yn gywir ac yn driw i'r hyn a ddywedwyd wrthyhych.

Mae'r gwrando yr un fath, dim torri ar draws, dim sylwadau na barnu.

Ailadroddwch hyn gymaint o weithiau â phosib.

Cymerwch y stori hon a'i throi'n ddeialog neu'n olygfa.

Fe allech chi hyd yn oed rannu gyda'r grŵp cyfan.

“Cael rhywun yn tystio i'ch stori ac yn ei anrhydeddu yw hanfod theatr dda.”

SEIRIOL DAVIES

- Daw Seiriol o Ynys Môn, yng Ngogledd Cymru ac mae'n gânwr, actor, awdur a chyfansoddwr.
- Hyfforddodd yn y London International School of Performing Arts, ac yna dechreuodd weithio ym myd cabaret. Mae wedi gweithio gyda chwmnïau fel Punchdrunk, Gideon Reeling a Brian Catling, mae'n un o sylfaenwyr cydweithfa gelf / label recordio Beatabet yn Brighton, a'r band roc Temper Temper, a bu'n perfformio fel un hanner y ddeuawd pync Underbling & Vow.
- Yn 2016, fe ysgrifennodd a bu'n serennu yn ei sioe gerdd gyntaf, How to Win Against History, a enillodd sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr The Stage yng Nghaeredin a Gwobr Theatr Cymru (Cynhyrchiad Teithiol Gorau).
- Fel actor, awdur a chyfansoddwr, mae wedi gweithio gyda chwmnïau eraill fel The Old Vic, The Gate Theatre, English National Opera, National Theatre Wales, y Lyceum yng Nghaeredin, a llawer mwy.
- Mae ganddo nifer o brosiectau newydd a chyffrous ar y gweill, gan gynnwys ei sioe Milky Peaks - edrychwch allan amdani.



Ymarfer 1 - 'Amazingness Safari' nid ydym eisïau ffeithïau; rydym eisïau chwilfrydedd.

Gadewch eich ystafell ddosbarth a dewch o hyd i leoliad i arsylwi

(os oes cyfyngiadau Covid yna fe allech chi ddefnyddio delwedd neu luniau wedi'u ffilmio).

Dim ond edrych. (Neu gwrandewch, neu gyffwrdd - os gallwch chi wneud hynny'n ddiogel)

Ceisiwch anghofio'ch rhagdybiaethau am yr hyn a welwch. Ceisiwch gadw'ch meddwl yn chwareus ac yn chwilfrydig.

Meddyliwch am bethau fel: Pwy ysgrifennodd yr arwydd yna? Pam mae cerflun o angel mawr yng nghanol y dref? Pam mae'r person yna'n gwneud hynny?

Nawr dewiswch un peth a'i archwilio.

Ar ôl ychydig funudau o arsylwi cwblhewch y brawddegau nesaf mewn llyfr nodiadau neu nodyn llais;

- Y peth wnes i ei archwilio yw...
- Gofynnais y cwestiynau canlynol amdano...
- Mae'r peth hwn yn anhygoel oherwydd...
- Mae hefyd yn rhyfeddol oherwydd...
- Pe bai'n rhaid i mi ddisgrifio'r holl beth mewn un gair, fyddai'r gair hwnnw

Cwblhewch hyn am dri pheth gwahanol.

Ymarfer 2 - Y Gêm "A"

Dewiswch eich hoff un o'r 3 pheth a archwiliwyd gennych. Edrychwch ar eich nodiadau, yna eu taflu.

Yn eich grwpiau bach, rydyn ni'n mynd i rannu ein straeon.

1. Yr enw ar y person sy'n adrodd y stori yw'r storiwr.
2. Gelwir pawb arall yn bryfociwr.
3. Rhaid i'r storiwr siarad. PEIDIWCH AC OEDI. PEIDIWCH Â MEDDWL.
4. Drwy'r amser, mae'n rhaid i'r storiwr greu'r hyn mae nhw'n ei ddisgrifio gyda'u corff. Nid oes rhaid iddo fod yn dda o gwbl - does neb poeni os yw'n dda. Mae mentrus yn well na da.
5. Os yw'r pryfocwyr yn clywed saib, rhaid iddynt ddweud **"A??"**

RHEOL YCHWANEGOL: Os ydyn nhw'n teimlo'n arbennig o chwareus, gall y **pryfocwyr** hefyd ddweud:

Enghraifft o'r rheol ychwanegol:

STORIWR:	Ac yna daeth ci.
PRYFOCWYR:	Gwna fo'n fwy anhygoel!
STORIWR:	Ac yna daeth ci blewog enfawr.
PRYFOCWYR:	Gwna fo'n fwy anhygoel!
STORIWR:	Ac yna daeth gorymdaith o gŵn blewog enfawr i gyd yn gwisgo trowsusau sgleiniog!

**Rhaid i chi ddefnyddio'r sgrïpt hon i ddechrau'r gêm "A".
Mae'n rhaid i chi ddweud y cyfan yn frwdfrydig iawn.**

PRYFOCWYR: Hei! Rwy'n deall dy fod wedi gweld rhywbeth anhygoel.

STORIWR: Do.

PRYFOCWYR: Ac rwyt ti'n mynd i ddweud wrthym amdano?

STORIWR: Ydw

PRYFOCWYR: Amdani felly!

PRYFOCWYR: Gwna fo'n fwy anhygoel!

Os yw'r **pryfocwyr** yn gwneud hyn, yna mae'n rhaid i'r **storiwr** anghofio'r peth olaf a ddywedon nhw, a meddwl am rywbeth mwy rhyfeddol.

Mae'r pryfocwyr eisiau gwybod pob manylyn am stori'r storiwr. Dyma'ch swyddogaeth chi.

Rhaid i'r storiwr ddal i siarad drwy'r amser. Peidiwch â meddwl.

Rhaid i'r storiwr greu y pethau mae nhw'n siarad amdany'n nhw â'u cyrff.

Gall y pryfocwyr ddweud "a?" os oes saib.

Gall y pryfocwyr ddweud "Gwna fo'n fwy anhygoel" os ydyn nhw am glywed rhywbeth gwell.

Gobeithio y cewch chi sesiwn dda, a beth bynnag a wnewch, ceisiwch ddod o hyd i'r llawenydd a'r chwilfrydedd ynddo.

- Mae Georgina yn byw yng Nghasnewydd ac fe astudiodd y Celfyddydau Perfformio ym Mhrifysgol De Cymru yng Nghasnewydd.
- Mae hi'n un o sylfaenwyr a chyfarwyddwr Cwmni Tin Shed Theatre Co, sy'n arbenigo mewn digwyddiadau a chynrychiadau theatr safle-benodol.
- Mae eu cynrychiadau diweddar yn cynnwys Big Skies, Moby Dick - a berfformiwyd ar Bont Gludo Casnewydd, Apocalypso, Leviticus, Dr Frankenstein's Traveling Freak Show, a The Ritual.
- Mae Georgina hefyd yn gweithio fel hwylusydd ac artist dysgu. Mae hi'n dysgu a chyfarwyddo yn y Bath Theatre Academy.



Ymarfer 1 - Dod o hyd i le ar gyfer 'Digwyddiad' ('A Happening')

Ffurfiwch grwpiau bach - cwmnïau unigol.

Nawr gadewch eich ystafell ddosbarth a dewch o hyd i leoliad

(os oes cyfyngiadau Covid, yna fe allech chi ddefnyddio delwedd neu luniau wedi'u ffilmio).

Ar ôl i chi ddod o hyd i rywle, sefwech yno. Sylwch arno. Edrychwch ar y cyfan.

(A gŵrandewch, a chyffyrddwch - os gallwch chi wneud hynny'n ddiogel)

Byddwch yn chwilfrydig am y lleoliad hwn.

Meddylwch am bethau fel: Pa weadau sydd yna? Pa ddefnyddiau a lliwiau? Pwy sy'n symud trwy'r lle hwn? Pam fyddai rhywun yn dod yma? Beth sy'n ddiddorol i mi am yr hyn rydw i'n ei weld? Beth sy'n fy ngwneud i'n chwilfrydig am y lle hwn? *Ceiswch beidio meddwl am unrhyw fath o 'syniadau stori' h.y. Peidwch â meddwl am yr hyn y GALLAI ddigwydd yno. Meddylwch am yr hyn sydd YN digwydd yno.*

Ar ôl ychydig funudau o arsylwi atebwch y cwestiynau canlynol. Gwnewch nodyn ohonynt mewn llyfr nodiadau neu nodyn llais;

1. Beth yw'r gofod?
2. Ble mae'r lleoliad? *Beth yw e?*
3. Beth yw ei brif bwrpas? *Beth yw ei ddefnydd yn bennaf?*
4. Sut mae pobl yn symud yn y gofod? *Nid yn unig o'i gŵmpas ond hefyd i mewn ac allan ohono.*
5. Beth sydd o ddiddordeb i chi am y gofod? *Gall hyn fod yn fwy nag un peth ond ceiswch fod yn fanwl.*

Ymarfer 2 - Beth yw y Digwyddiad? (A 'Happening')

Nawr fod gennych eich syniadau a'ch nodiadau am y lleoliad, casglwch nhw ynghyd gyda nodiadau pawb arall.

Trafodwch mewn grŵpiau bach. Ystyriwch y canlynol:

1. Pa syniadau sydd gennych yn gyffredin?
2. Pa syniadau sy'n wahanol?
3. Beth sy'n eich cyffroi am syniadau rhywun arall?

Ceisiwch gytuno ar rai o'r rhain cyn rhoi adborth i'ch grŵp cyfan am y lle rydych chi wedi'i ddewis. *Meddylizwch am hyn fel 'pitsh' a cheisiwch werthu apêl eich lleoliad i weddill y grŵp. Rydych chi am iddyn nhw fod eisiau gweld eich digwyddiad ac eisiau bod yn rhan ohono.*

Creu'r Digwyddiad - Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi feddwl am eich 'digwyddiad' fel y stori rydych yn ceisio ei hadrodd.

Fel y dywed Georgina mae dwy ffordd o edrych ar hyn:

Yn Greadigol:

Beth allech chi ei roi yn y gofod?

Dechreuwch trwy ddychwelyd at eich nodiadau i gychwyn meddwl am syniadau.

A welsoch chi rhywun a fyddai'n creu cymeriad diddorol?

Efallai eich bod wedi clywed sgwrs neu ymadrodd a fyddai'n gwneud llinellau deialog diddorol.

Neu fe allech chi ddechrau trwy ysgrifennu neu recordio disgrifiad o'r lleoliad - beth sy'n sefyll allan i chi? Ai dyma ble mae'ch stori'n cychwyn?

Dylech feddwl am y canlynol cyn bwrw ymlaen â'r syniadau hyn:

- I. Dylech ystyried a fydd yr hyn y bydd eich cynulleidfa yn ei weld yn rhywbeth cyffredin neu anghyffredin? *A fyddant yn gweld pobl yn defnyddio'r gofod fel y bwriadwyd? Beth ydych chi'n ceisio'i ddweud wrth gynulleidfa trwy wneud hyn?*
- II. Efallai y byddwch hefyd am ystyried y syniad bod rhywbeth cyffredin yn gallu troi'n rhywbeth anghyffredin neu anarferol - 'Visibly Invisible' fel y mae Georgina yn ei ddweud. *Sut allwch chi wneud rhywbeth sy'n herio disgwyliadau pobl o'r lleoliad? Pa beth arferol allai drawsnewid yn rhywbeth anarferol a beth fydddech chi am i'ch cynulleidfa ei gael o'r profiad hwnnw?*

Yn Ymarferol:

Ystyriwch rai o'r elfennau ymarferol hyn - efallai y byddan nhw'n tanio syniad creadigol arall.

Awgrymwch eich bod yn gosod pob un o'r cwestiynau hyn ar ddarn o bapur ar wahân ac yn eu hamgylchynu â syniadau ac atebion.

- Sut y byddwn yn defnyddio'r gofod ar gyfer perfformiad?
A oes angen pŵer yno? A oes system sain? A oes goleuadau?
- Sut bydd pobl yn gwylio eich digwyddiad?
Ydyn nhw'n edrych arno neu ydyn nhw'n ei glywed? Efallai eu bod yn ei aroglu?
- Sut bydd eich cynulleidfa yn symud o gwmpas y gofod?
A ydyn nhw'n rhydd i archwilio? Oes rhaid iddyn nhw ddilyn llwybr penodol? Ydych chi am iddyn nhw fod yn rhan o'r digwyddiad neu arsylwi arno?

A oes unrhyw gwestiynau eraill y mae angen i chi eu gofyn am ymarferoldeb y digwyddiad?

Ar ôl i chi wneud y penderfyniadau hyn, rydym yn awgrymu eich bod yn mynd ymlaen i ddatblygu sgript ar gyfer y syniadau hyn gan ddefnyddio un o'n tîwtorialau eraill.

- Mae Tracy yn ddramodydd o Abertawe.
- Astudiodd yng Ngholeg Gorseinon lle tyfodd ei chariad at theatr cyn mynd i Brifysgol Caerhirfryn i astudio Theatr Arbrofol ar ôl cael ei dylanwadu gan gwmni Volcano.
- Fel rhan o'r cwrs hwnnw gwnaeth fodiwl ysgrifennu dramâu lle ysgrifennodd ei drama gyntaf Past Away a gomisiynwyd gan Sgript Cymru ar ôl iddi dychwelyd i Gymru.
- Ymhlith ei dramâu eraill mae Ripples (CBCDC / Theatr y Sherman) The Cloak Room (Theatr y Sherman / Mighty Theatre, Washington), No Vacancies (Theatr y Sherman) a Lost, Found, Stolen (National Theatre Wales).
- Ochr yn ochr ag ysgrifennu, dechreuodd weithio ar raglenni dogfen teledu a sefydlodd Gritty Productions er mwyn gwneud ffilmiau a rhaglenni radio trawiadol ar gyfer y BBC gan gynnwys Swansea Living on the Streets a enwebwyd am wobwr Bafta ac yn fwy diweddar Selling Sex to Survive am buteindra yn Ne Cymru.



Cyflwyniad cyflym i Ysgrifennu Rhydd

O fewn ymarferion Tracy mae hi'n siarad am ddefnyddio techneg Ysgrifennu Rhydd (Free Writing). Rydym wedi llunio cyflwyniad byr yma:

Mae'r dechneg hon yn cynnwys ysgrifennu parhaus mewn ymdrech i oresgyn y rhwystrau sy'n ein hatal rhag ysgrifennu heb ofn. Dylai'r ysgrifennu ddigwydd dros gyfnod penodol o amser bob tro - rydym yn awgrymu rhwng pump a phymtheg munud. Ni ddylai ysgrifbin yr awdur adael y papur ar unrhyw adeg (neu bysedd roi'r gorau i deipio). Dylid annog awduron i anwybyddu sillafu, atalnodi neu ramadeg. Os ydynt yn cyrraedd pwynt lle na allant feddwl am unrhyw beth i'w ysgrifennu, yna dylai'r awduron ddal ati i ysgrifennu; naill ai drwy ddweud na allant feddwl am unrhyw beth neu ddisgrifio'r ystafell o'u cwrpas, nes iddynt ddod o hyd i syniad arall.

Mae'r broses hon yn eich annog i grwydro'n rhydd wrth ysgrifennu; gadewch i'ch meddyliau eich arwain a chreu cysylltiadau a safbwyntiau ar bwnc penodol. Wrth wneud hyn mae'n helpu awdur i archwilio pwnc penodol heb gyfyngiadau ysgrifennu mewn arddull a fframwaith penodol.

Ymarfer 1 - Cerddoriaeth

“Rwy'n hoff o'r syniad bod drama fel tâp o ganeuon a'i bod yn bosib ysgogi gwahanol olygfeydd drwy ddefnyddio cerddoriaeth wahanol.”

Weithiau mae Tracy yn defnyddio cerddoriaeth i'w helpu i ddechrau ysgrifennu. Mae hi'n meddwl am ei drama fel trac sain. Mae gan bob cân ei uchafbwynt a'i chwmp, ac mae hi'n ysgrifennu mewn ymateb i hyn gan greu golygfeydd sydd a phatrwm fel y gân. Gwrandewch ar y trac yr hoffai Tracy i chi ysgrifennu mewn ymateb iddo (*Mae'r trac yn chwarae ar 19.39 yn y tiwtorial*).

Dechreuwch trwy wrando arno. Yn syml, caewch eich llygaid a gwrandewch. Meddyliwch am y gwahanol synau rydych chi'n eu clywed. Pa newidiadau rhythm a thempo sydd yna? Pa offerynnau? Beth sy'n digwydd yn y distawrwydd neu yn ystod y nodau hir?

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU- TAFLENNI FFEITHIAU

Ar ôl i chi wrando ar y trac, meddyliwch am yr hyn wnaethoch chi ei weld. Beth oedd y symudiadau oedd yn digwydd yn y darn? Pa siapiau welsoch chi yn cael eu ffurfio? A oedd unrhyw ddelweddau corfforol trawiadol a ddaeth i'ch meddwl lle roedd cymeriadau'n cysylltu neu'n sefyll ar eu pennau eu hunain? *Gwnewch nodyn o unrhyw beth sy'n ddiddorol neu'n eich gwneud yn chwilfrydig.*

Cymerwch funud i sefyll a chreu y gwahanol ffurfiau hynny yn gorfforol neu os na allwch eu creu yn gorfforol, ysgrifennwch neu feddyliwch am dri symudiad syml sy'n cyd-fynd â'r gerddoriaeth. Rhwch enw iddyn nhw sy'n ymwneud â'r foment mae nhw'n ymddangos. Ceisiwch gadw at un ymadrodd neu air. *Fe allech chi chwarae'r trac eto ac arbrofi gyda'r symudiadau i weld sut mae nhw'n gweithio mewn dilyniant. Ydyn nhw'n ailadrodd, ydy'r drefn yn newid? Gwnewch nodyn o unrhyw beth sy'n ddiddorol neu'n eich gwneud yn chwilfrydig.*

Gwrandewch ar y gerddoriaeth eto a dechrau meddwl mwy am eiriau i gydfynd â'r eiliadau hyn. Defnyddiwch y dechneg ysgrifennu rhydd a amlinellir uchod. Fe allech chi ddechrau gyda geiriau unigol, adeiladu brawddegau neu gychwyn darnau hirach o ysgrifennu wrth i chi wrando ar y gerddoriaeth. Yna datblygwch hwn yn ddeialog - sgwrs rhwng y gwahanol elfennau cerddorol.

Yn olaf, dechreuwch feddwl am yr awyrgylch yr hoffech chi ei greu yn eich drama eich hun. Fe allech chi greu rhestr gyfan o ganeuon ar gyfer eich drama; cân i bob golygfa neu foment. Dalwch i ailadrodd y dechneg uchod nes eich bod wedi cynhyrchu drama gyfan o ddeunydd!

Ymarfer 2 - Ffotograffau

Yn yr un modd â'r gerddoriaeth mae Tracy hefyd yn defnyddio ffotograffau i'w helpu i ddechrau ysgrifennu. Mae hi'n dewis cyfres o luniau diddorol ac yn defnyddio'r rhain i danio ei dychymyg wrth fynd ati i ysgrifennu. Mae hi'n aml yn gwneud hyn os yw hi'n stryffaglu gyda golygfa neu gymeriad penodol. Mae'r lluniau y mae'n eu defnyddio yn aml yn cynnwys cymysgedd o bobl mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau a pherthnasau. *Rydym wedi cynnwys y lluniau o diwtorial Tracy ar ddiwedd y pecyn hwn.*

Cymerwch gip ar luniau Tracy ac ystyriwch y canlynol:

- Pwy yw'r bobl hyn? (Beth yw eu henw? Beth yw eu oedran? Beth mae nhw'n ei wneud?)
- Beth sy'n digwydd yn yr olygfa?
- Ble mae nhw?
- Beth mae nhw'n ei weld, arogl, clywed?
- Beth mae nhw ei eisiau yn yr eiliad benodol hon?

Os ydych yn astudio drama gallai fod o gymorth i chi ystyried yr 'amgylchiadau gosodedig' o ddull Stanislavski wrth wneud hyn hefyd.

Yn yr un modd â'r ymarfer gyda cherddoriaeth, ar ôl i chi gasglu'r wybodaeth hon, gosodwch amseredd i chi'ch hun am 10 munud ac yna dechreuwch ysgrifennu golygfa rhwng y cymeriadau gan ddefnyddio'r dull ysgrifennu rhydd. Gallai fod ar ffurf deialog neu fonolog. Mae'r ymarfer hwn yn ymwneud â chynhyrchu deunydd ac archwilio pethau sy'n eich ysgogi fel man cychwyn ar gyfer ysgrifennu.

- Mae Kyle Lima yn Actor, Awdur a Chyfarwyddwr o Gaerdydd, ac wedi graddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.
- Ers graddio, mae Kyle wedi cael gyrfa yn gweithio ym maes theatr, teledu a ffilm ac mae'n Artist Cyswllt i Theatr y Sherman a Theatr Iolo.
- Roedd Kyle yn aelod o BBC Writersroom Welsh Voices yn 2018-9, ar ôl iddo gyflwyno sgript yn seiliedig ar ei sioe un dyn Heart And Soul, a gafodd ei hysgrifennu, ei pherfformio a'i chyfarwyddo gan Kyle, ac a gyflwynwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn 2017.
- Mae credydau actio llwyfan Kyle yn cynnwys: *Muscle* (Chapter); *A Midsummer Night's Dream* (Bristol Old Vic, Canolfan Barbican a Chanolfan Kennedy UDA); *World Cup Final 1966* (Bristol Old Vic); *The Last Mermaid* (Gŵyl y Llais - Canolfan Mileniwm Cymru); *The Little Match Girl* (Shakespeare's Globe); *Tristan & Yseult* (Shakespeare's Globe, Bristol Old Vic & Theatr Clwyd); *The Motherf**ker with the Hat* (Theatr y Sherman a'r Tron Theatre); *Peter Pan* (Regent's Park Open Air Theatre).
- Mae gwaith sgrin Kyle's yn cynnwys y ffilm Pink Wall, a enwebwyd am BAFTA Cymru, a Gavin & Stacey Christmas Special 2019. Bydd hefyd i'w weld yn fuan yn nrama ITV The Pembrokeshire Murders.



Ymarfer 1 - Penawdau

Mae Kyle yn awgrymu man cychwyn neu ysgogiad hawdd ar gyfer ysgrifennu - penawdau papurau newydd.

Dechreuwch trwy edrych trwy ystod o wahanol gyhoeddiadau; papurau dyddiol, papurau am ddim, cylchgronau.

Dewiswch rai penawdau erthyglau sy'n eich gwneud yn chwilfrydig. Pam fod rhain yn bachu'ch diddordeb? Oes yna gymeriadau neu leoliadau sydd o ddiddordeb i chi? Oes ganddyn nhw genre amlwg? Efallai eu bod yn anarferol. Ceisiwch ddewis rhestr fer o benawdau amrywiol er mwyn dechrau ehangu ar eich syniadau.

Nawr bod eich pennawd gennyh, mae amser i'ch dychymyg grwydro. Gofynnwch y canlynol:

- Pwy sy'n cymryd rhan? (y cymeriadau)
- Ble mae nhw?
- Beth yw'r digwyddiad a ddechreuodd y cyfan?

Gwnewch nodyn byr o'r ffeithiau hyn ar frig tudalen wag.

Nawr penderfynwch a hoffech chi ysgrifennu golygfa yn seiliedig ar y pennawd neu fonolog ar gyfer un o'r cymeriadau. **Gosodwch amseredd am 3 munud a dechrau ysgrifennu.** Ar ôl i chi wneud hyn, galkwch ei ailadrodd gymaint o weithiau ag y dymunwch.

Yn olaf, darllenwch y golygfeydd hyn yn uchel. Bydd eu clywed yn uchel yn eich helpu i sylwi ar y pethau rydych chi'n eu hoffi am yr hyn wnaethoch chi ei ysgrifennu a'r pethau rydych chi am eu gwella. Dewiswch un o'r darnau hyn i'w hail-ddrafftio a threuliwch ychydig mwy o amser yn mynd i'r afael â'r newidiadau rydych chi am eu gwneud.

Ymarfer 2 - Cylch Stori

Mae'r ymarfer hwn yn cynnwys gweithio fel grŵp, ond gellid ei gyflawni mewn amryw o wahanol ffyrdd - yn dibynnu ar sut yr ydych yn gweithio ar hyn o bryd.

Dewch a'r grŵp at ei gilydd a dewiswch un o'r penawdau o ymarfer un. Sierhewch eich bod yn glir ynglŷn â chymeriadau, lleoliad a digwyddiadau'r olygfa. Yn olaf, penderfynwch a fydd hon yn stori fer, yn fonolog neu'n olygfa.

Ar ôl penderfynu hyn i gyd, mae'n bryd dechrau adrodd y stori. Gellir gwneud hyn yn uchel fel stori lafar neu gellir ei ysgrifennu.

1. Rhewch rif i bawb yn y grŵp.
2. Person 1 sy'n dechrau'r stori.
3. Mae person 2 yn ychwanegu brawddeg.
4. Mae Person 3 yn ychwanegu un arall, ac ati, nes bod pawb wedi dweud rhywbeth sydd wedi ychwanegu at y stori.
5. Ailadroddwch y broses hon am gynifer o benawdau â phosib.

Unwaith eto darllenwch y golygfeydd hyn yn uchel.

Yn olaf, dewiswch un o'r straeon y gwnaethoch chi eu creu o'r ymarferion hyn a'i datblygu ymhellach, naill ai'n stori lawn neu'n ddrama.

Dramâu wedi'u hargymhell gan Kyle (gyda dolenni i'r gwefannau)

Nine Night gan Natasha Gordon [<https://www.nationaltheatre.org.uk/shows/nine-night>]

Jerusalem gan Jez Butterworth [<https://royalcourttheatre.com/whats-on/jerusalem/>]

A Wolf In Snakeskin Shoes gan Marcus Gardley [<https://kilntheatre.com/whats-on/a-wolf-in-snakeskin-shoes/>]

ear for an eye gan debbie tucker green [<https://royalcourttheatre.com/whats-on/ear-for-eye/>]

Belong gan Bola Agbaje [<https://royalcourttheatre.com/whats-on/belong-local-2/>]

A Raisin In The Sun gan Lorraine Hansbury [<https://www.youtube.com/watch?v=GKj7wcuY6X8> (Addasiad Teledu o 2008)]
(Efallai y bydd gennych hefyd ddiddordeb yn Clybourne Park gan Bruce Norris. Mae'r ddrama'n cydfynd gyda A Raisin In The Sun.)


One Man, Two Guvnors gan Richard Bean [<https://www.nationaltheatre.org.uk/shows/nt-at-home-one-man-two-guvnors>]

Richard III gan William Shakespeare [<https://www.shakespearesglobe.com/whats-on/richard-iii-19-20/>]

Romeo and Juliet gan William Shakespeare [<https://www.rsc.org.uk/romeo-and-juliet/>]

Nodwch nad yw Theatr y Sherman yn gyfrifol am y cynnwys ar wefannau trydydd parti. Mae gan pob gwefan trydydd parti ei Pholisi Preifatrwydd / Rheoli Data ei hun. Pan mae Adran Ymgysylltu Creadigol y Sherman yn cynnwys dolenni i wefannau allanol (heblaw'r Sherman) sy'n berthnasol i'r cynnwys, rydym yn credu eu bod yn addas ar gyfer cynulleidfia arfaethedig ein hadnodd.

- Mae Hannah yn berfformiwr a gwneuthurwr theatr sy'n wreiddiol o Gaeredin.
- Hyfforddodd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac mae bellach yn cyd-redeg cwmni theatr yng Nghaerdydd o'r enw Gagglebabble sy'n creu theatr gig.
- Mae credydau theatr helaeth Hannah yn cynnwys cynrychiadau gyda Shakespeare's Globe, National Theatre Wales, National Theatre Scotland, Improbable, Told By An Idiot, Northern Stage Company, Theatr y Sherman, The Other Room a'r Manchester Library Theatre.
- Perfformiodd Hannah yn y sioe un fenyw arobryn The Shape of Pain, a gynhyrchwyd gan China Plate, yng Ngŵyl Ymylol Caeredin yn 2017 a'r Battersea Arts Centre yn 2018.
- Mae ei chredydau teledu yn cynnwys y gomedi Trollied (Sky 1) a Skins (E4). Mae ei chredydau radio yn cynnwys Modesty Blaise a Seven Songs ar gyfer BBC Radio 4.
- Mae Hannah hefyd yn gantores a cherddor medrus iawn, yn chwarae yr acordion, soddgrwth, bas dwbl, gitâr a phiano.



Ymarfer 1 - Gweithio gyda chyfyngiadau

Gall gosod rheolau a chyfyngiadau ein rhyddhau wrth ysgrifennu, rhag poeni os yw'r hyn yr ydym yn ei ysgrifennu yn 'dda'. Mae'r holl waith dyfeisio a byrfyfyf mae Hannah'n ei wneud yn ymwneud â dod o hyd i'r gêm yn yr hyn rydych chi'n ei wneud. Mae'n bwysig cofio trwy gydol yr ymarferion hyn nad y cynnwys rydych chi'n ei greu yw'r ffocws; dim ond chwarae'r gêm.

Mae'r ymarferion hyn yn seiliedig ar gemau byrfyfyf gan Told by an Idiot. Maent yn gwmni theatr dyfeisiedig byd-enwog, sy'n mynd a'u gwaith ar daith yn rheolaidd. Am fwy o wybodaeth edrychwch ar eu gwefan: <https://www.toldbyanidiot.org/>.

Dyma'r cyfyngiadau wnaeth Hannah eu cyflwyno i ni:

Gêm yr Wyddor - Rhaid i bob brawddeg ddechrau gyda llythyren nesaf yr wyddor. Felly mae 29 brawddeg yn bosib gyda'r Wyddor Gymraeg. Efallai na fyddwch yn mynd yr holl ffordd trwy'r wyddor ond peidiwch â chynhyrfu. Cofiwch mai dim ond chwarae'r gêm ydych chi.

Gwahardd llythyren - Dewiswch un llythyren i'w gwahardd o'ch ysgrifennu, e.e. ni allwch ddefnyddio unrhyw eiriau sy'n cynnwys y llythyren S. Gall dileu'r llythyren hon greu her go iawn!

Brawddegau tri gair - Dim ond mewn brawddegau o dri gair y gall pob cymeriad siarad. Yn olaf, rhwch gynnig ar hyn. Ymarfer syml. Ydi e? Efallai y byddwch chi'n cael trafferth. Pwy a wŷr? Chwaraewch y gêm!

Penderfynwch ar leoliad ar gyfer y sgwrs. Cadwch at leoliadau go iawn. Gallai fod yn siop trin gwallt, cownter caws Tesco neu'n orsaf heddlu, peidiwch â meddwl gormod amdano. Gwnewch yn siwr eich bod yn cadw rhestr o'r lleoliadau hyn - byddwch eu hangen eto.

Gair i gall: Trwy ganolbwyntio ar chwarae'r gêm, fydd dim pwysau ar greu cynnwys.

Nawr mae'n amser ysgrifennu. Dewiswch un cyfyngiad ac un lleoliad. Rhowch hyd at 5 munud i chi eich hun. Peidiwch â phenderfynu ymlaen llaw beth sy'n digwydd, dechreuwch ysgrifennu gan ddefnyddio'r lleoliad hwnnw a'r gêm a gweld beth sy'n digwydd.

Darllenwch yr hyn sydd gennych chi - beth ydych chi'n ei hoffi, beth wnaeth eich synnu, ac a hoffech chi ddatblygu'r syniad?

Rhowch gynnig ar leoliad arall a rheol arall. Cyfunwch reolau gwahanol.

Pwrpas yr ymarfer yw creu cynnwys cyn gynted â phosib - bydd gennych lyfrgell o syniadau yn fuan iawn!

Ymarfer 2 - Cadw neu Newid (*Stick or Twist - mae tixetorial Hannah yn cyflwyno'r ymarfer ychydig yn wahanol*)

Yn yr holl waith mae Gagglesbabble yn ei greu, mae Hannah - a'r cwmni - yn penderfynu ar arddull neu genre ar ddechrau'r broses, weithiau cyn eu bod yn gwybod pa stori maent am ei hadrodd hyd yn oed. Mae gwneud dewisiadau fel hyn yn golygu fod y cwmni yn gwybod sut y bydd y cynhyrchiad terfynol yn edrych ac yn swnio; beth yw'r byd y maent yn gwahodd y gynulleidfa i mewn iddo. Mae'n gyfyngiad sy'n eu helpu i greu gwaith.

Mae'r gêm hon yn ymwneud â gwneud dewisiadau beiddgar gan ddefnyddio arddull neu genre fel cyfyngiad.

Mae'r enghraifft hwn yn defnyddio stori *Yr Hugan Fach Goch*, ond fe allech chi ddefnyddio pa bynnag thema / stori rydych chi'n gweithio arni.

1. Dechreuwch trwy ysgrifennu rhestr o genres / arddulliau - rhaglen ddogfen, ffilm noir, opera sebon, ffuglen droseddol, ffilm gyffro, theatr plant, arswyd ayyb
2. Nesaf, gwnewch restr o olygfeydd / momentau posibl - cwrdd â'r blaidd am y tro cyntaf, cychwyn tua'r goedwig, bwyta mam-gu, torwr coed yn cyrraedd.
3. Dewiswch 5 o'r ddau restr hyn a'u hysgrifennu ar gardiau / darnau o bapur ar wahân. Nawr rhowch nhw wyneb i lawr o'ch blaen.
4. Perfformiwch drum roll (mae hyn yn bwysig iawn) yna trowch ddau gerdyn drosodd (un genre ac un olygfa).
5. Efallai y byddwch yn dewis cychwyn i'r goedwig/rhaglen ddogfen natur neu cyfarfod â'r blaidd /opera sebon.
6. Os ydych chi'n hoffi'r cyfuniad, cadwch ef, os nad ydych chi, newidiwch nhw am set arall o gardiau.
7. Gosodwch amseredd am 5 munud a rhowch gynnig ar ysgrifennu'r olygfa. (*Gallwch ddefnyddio'r cyfyngiadau o ymarfer 1 os yw hynny'n helpu.*)

Ar ôl i chi ei greu, ysgrifennwch nodiadau yn gyflym o'r pethau yr oeddech chi'n eu hoffi neu'n meddwl eu bod yn ddiddorol neu'n gweithio ac yna symud ymlaen i'r cyfuniad nesaf, peidiwch â rhoi gormod o amser i'ch hun feddwl rhyngddynt. Pwrpas hyn eto yw creu cynnwys yn gyflym, peidio â phoeni am yr hyn yr ydych chi'n ei wneud nac ei gynllunio ymlaen llaw.

Ar ôl i chi gael yr holl ddeunydd hwn gallwch fynd yn ôl a dechrau rhoi pethau at ei gilydd. Dewisiwch olygfeydd/momentau yr oeddech chi'n meddwl oedd yn ddiddorol neu a allai ddatblygu'n stori gyflawn. Wrth gwrs, ar ôl i chi ddewis y rhain gallwch ddefnyddio'r gemau eto a chreu mwy o olygfeydd, gan ddatblygu, gobeithio, i ddrama gyfan mewn amser.

Ceisiwch guddio'r gêm - peidiwch tynnu sylw ato. Peidiwch â chael cymeriad sy'n gofyn "pam wyt ti'n siarad mewn brawddegau tri gair?" - nid yw'n ddiddorol iawn. Unwaith rydym ni'n cyfeirio at y gêm, mae hi drosodd.

ELGAN RHYS

- Mae Elgan yn un o sylfaenwyr a Chyd-Gyfarwyddwr Artistig Cwmni Pluen, sy'n creu theatr wreiddiol, feiddgar a pherthnasol a chynniig llwyfan hanfodol i leisiau yn ein cymdeithas.
- Mae wedi dyfeisio, cyd-ysgrifennu a pherfformio yn Mags, Ti.Me, Llais / Voice (Cwmni Pluen) a Follow Me / Dilyn Fi (Frân Wen).
- Llwyfannwyd ei ddrama gyntaf, Woof yn y Sherman yn 2019, ac fe'i nodwyd gan The Review Show BBC Radio Wales a'r Wales Arts Review fel un o uchafbwyntiau theatrig y flwyddyn honno.
- Ar gyfer S4C / It's My Shout fe ysgrifennodd Fi a Miss World.
- Mae hefyd yn gweithio fel cyfarwyddwr gan gynnwys gwaith i Fran Wen (Llyfr Glas Nebo) Theatr y Sherman (The Magic Porridge Pot / Hud y Crochan Uwd), Canoe Theatre (Blue / Orange), Prifysgol De Cymru (Woyzeck a Dan y Wenallt / Under Milk Wood)
- Mae ei gredydau fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn cynnwys Bird (Theatr y Sherman a'r Manchester Royal Exchange), Yuri (August 012), ac After The End (Dirty Protest).
- Mae Elgan yn Artist Cyswllt i Frân Wen, ac mae'n darlithio ar y Cwrs BA (Anrh) Drama a Theatr ym Mhrifysgol De Cymru.



Ymarfer 1 - Addasu

Mae addasu darn o waith yn golygu bod ei ffurf greadigol wedi'i newid. Mae'n eithaf cyffredin ym myd y theatr i addasu nofel yn ddrama lwyfan, neu gyfieithu ac addasu o ieithoedd a ffurfiau eraill. *Bydd ymarferion Elgan yn rhoi cyfle i chi wneud hyn eich hun.*

Dechreuwch trwy feddwl am stori nad ydych wedi'i gweld eto ar y llwyfan (*Gallai hon fod yn ffilm, nofel, llyfr comig ayyb*).

Gwnewch yn siŵr ei bod hi'n stori ac yn gymeriadau rydych chi'n eu hadnabod yn dda.

- Beth am y stori hon sy'n apelio atoch chi?
- Y cymeriadau? Y lleoliadau? Efallai'r themâu neu'r pynciau sy'n cael eu harchwilio?

Gwnewch restr o rai o'r ffeithiau hyn.

Nawr dechreuwch feddwl am yr eiliadau yn y stori rydych chi wir yn eu mwynhau neu'n meddwl sy'n ddiddorol iawn.

Nesaf dewiswch eich hoff foment sy'n digwydd rhwng dau gymeriad.

Cymerwch ddau ddarn o bapur ar wahân - un i bob cymeriad.

Ar frig y papur ysgrifennwch enw'r cymeriad, a chwblhewch y frawddeg ganlynol:

“Yn y foment hon mae'r cymeriad hwn eisiau ...”

Wedyn ysgrifennwch yr holl ffeithiau rydych chi'n eu gwybod am y cymeriad (e.e)

- | | |
|---|----------------------------------|
| • Beth neu bwy mae nhw'n ei hoffi / ddim yn ei hoffi? | • Pam maent yma? |
| • ble mae nhw'n dod? | • Sut wnaethon nhw gyrraedd yma? |
| • Beth yw eu swydd? | • Beth mae nhw'n ofni? |

Dyma rai enghreifftiau yn unig - croeso i chi ehangu'n bellach. Po fwyaf y byddwch chi'n dod i wybod yma, hawsaf fydd gweddill yr ymarferion i chi.



Nawr mae'n amser bod yn greadigol!

Edrychwch ar y rhestr o'ch blaen.

- Newidiwch un ffaith am bob un o'r cymeriadau - *fe allech chi wneud newid bach neu drawsnewid y cymeriad yn llwyr!*
- Newidiwch leoliad yr olygfa hefyd.
- Gwnewch yn siwr eich bod chi'n gwybod beth mae pob cymeriad ei eisiau.

Nawr dechreuwch ysgrifennu - dim ond un dudalen sy'n rhaid i chi ei llenwi ond gwnewch yn siŵr bod un cymeriad yn cael yr hyn mae nhw ei eisiau erbyn diwedd yr olygfa.

Meddylwch am yr holl wahanol ffyrdd rydyn ni'n cael yr hyn rydym ni ei eisiau (ymhladd, perswadio, trafod ac ati), a cheiswch gynnwys ystod o dechnegau.

Ceisiwch ei ddarllen yn uchel unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Beth ydych chi'n sylwi arno am yr hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu? A oes unrhyw beth y byddech chi'n ei newid?

Ymarfer 2 - Addasu rhywbeth hen yn rhywbeth newydd!

Nawr mae'n bryd newid pethau eto!

Ewch yn ôl at eich rhestrau gwreiddiol - atgoffwch eich hun o'r holl ffeithiau sydd gennych.

Unwaith eto, newidiwch ffaith am bob un o'r cymeriadau - gwnewch yn siŵr ei bod yn wahanol i'r tro diwethaf.

Hefyd, newidiwch leoliad yr olygfa eto - gwnewch benderfyniad mentrus!

Newidiwch yr hyn y mae pob cymeriad ei eisiau yn y sefyllfa hefyd.

Nawr dechreuwch ysgrifennu - ond y tro hwn heb ddeialog. Gall fod yn gân, barddoniaeth, disgrifiad o symudiad, strîbed comig ... unrhyw beth o gwbl.

Cymharwch y ddwy fersiwn o'r olygfa.

Pa bethau ydych chi'n eu hoffi am yr hyn y gwnaethoch chi ei greu? Beth oedd yn her?

Gallwch ddychwelyd i'r rhestrau ar unrhyw adeg a gwneud cymaint o newidiadau ag y dymunwch.

Beth fyddai'n digwydd os byddwch chi'n newid un peth yn unig?

Neu os ydych chi'n gwneud penderfyniad mentrus am y lleoliad neu'r hyn y mae'r cymeriadau ei eisiau?

A allech chi ei osod yn y gofod neu o dan ddŵr?

Efallai mai'r unig beth mae nhw ei eisiau yw'r tanc olaf o oesigen neu ddarganfod triniaeth i wella clefyd y credwyd nad oedd modd ei drin?

Pob lwc - dim ond eich dychymyg sy'n eich cyfyngu.

ALEXANDRIA RILEY

- Mae Alexandria yn awdur ac yn actores o Gasnewydd, De Cymru.
- Dechreuodd ysgrifennu yn y Brifysgol a pherfformiwyd ei drama gyntaf *What About Love* yn Theatr Dolman Casnewydd. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd bedair sioe ar gyfer grŵp perfformio lleol; *Romeo a Juliet - the streets*, *Make or Break*, *Sisters Acting Up*, ac *Hard Knock Life*.
- Yn fwy diweddar, ysgrifennodd ac ymddangosodd yn ei rhaglen ddogfen ei hun, *Mixed* a ddarlledwyd ar y BBC.
- Mae hi hefyd wedi ysgrifennu pennod o Torchwood o'r enw A Mothers Love ar gyfer eu cyfres llyfrau llafar, a monolog ar gyfer cyfres TEN/DEG Theatr y Sherman o'r enw (*Single*) *Motherhood*.
- Fel actores, mae ei chredydau sgrin yn cynnwys *The Pembrokeshire Murders*, *The Pact*, *The End of the F***ing World*, *In My Skin* a *The Tuckers*.
- Mae ei chredydau theatr yn cynnwys *For All I Care* (National Theatre Wales), *The Mother F*cker In The Hat* (Theatr Tron / Sherman), *Hedda Gabler*, *Alice In Wonderland* a *The Cherry Orchard* (Theatr y Sherman) a *How My Light Is Spent* (Manchester Royal Exchange / Theatr y Sherman).



Ymarfer 1 - Strwythur Stori Pwy yw eich cymeriadau? Beth sy'n Digwydd? Sut mae'r cymeriadau neu'r sefyllfa'n newid?

Mae ymarfer cyntaf Alexandria yn gofyn i chi archwilio strwythur stori. Unwaith y bydd gennych strwythur clir mae'n gwneud i weddill y broses ysgrifennu ymddangos ychydig yn haws. Y ffordd hawsaf i ddechrau meddwl am strwythur yw edrych ar sut mae awduron eraill yn ymdrin ag ef yn eu gwaith.

Dewiswch ffilm neu sioe deledu. Gallai fod yn un rydych chi'n ei hoffi ac wedi ei gwyllo o'r blaen neu gallai fod yn rhywbeth hollol newydd. Ar ddalen lân o bapus, nodwch y pwyntiau canlynol yn y stori:

- Stori pwy yw hi?
- Sut fath o berson ydyn nhw ar y dechrau?
- Beth yw'r broblem?
- Beth mae nhw eisiau neu eisiau ei newid?
- Beth yw'r trobwynt / digwyddiad dramatig sy'n newid cwrs y stori?
- Sut mae nhw'n goresgyn y broblem?
- Beth mae nhw'n ei sylweddoli amdany'n nhw eu hunain?
- Sut mae nhw / y sefyllfa'n newid ar ddiwedd y stori?

Mae hyn yn helpu i ddechrau sylwi ar strwythur. Unwaith i chi edrych amdano, fe fyddwch yn ei weld ym mhob drama / sioe deledu / ffilm. Hysbysebion hyd yn oed. Bydd hyn yn helpu i gadw strwythur stori ar flaen eich meddwl wrth ysgrifennu, os ydych chi'n sylweddoli hynny ai peidio.

Mae Alexandria yn argymhell 'Into The Woods' gan John Yorke os hoffech ddarllen mwy am strwythur stori. Os ydych yn defnyddio'r ymarfer hwn wrth astudio drama efallai y byddwch hefyd am edrych ar 'The Actor and the Target' gan Declan Donnellan.

Ymarfer 2 - Rhewch eich hun mewn stori.

Pan ydyn ni'n blant, rydyn ni'n creu straeon bob dydd trwy chwarae. Rydyn ni'n dod yn arwyr penigamp, dihirod, anifeiliaid ac unrhyw beth y gall ein meddwl creadigol ei ddychmygu! Plant yw'r awduron GORAU! Oherwydd nad oes cyfyngiadau. Nid oes unrhyw beth yn gywir nac yn anghywir wrth adrodd straeon, ond wrth i ni dyfu'n oedolion, mae'r ofn o gael pethau'n anghywir yn ein rhwystro rhag mynd amdani'n greadigol.

Felly, beth am roi ein hunain mewn stori. Unrhyw stori sy'n apelio. Stori hir neu stori fer. Nid oes rhaid iddo fod yn glyfar. Dim ond bod rhyddid i ysgrifennu heb or-feddl.

Dechreuwch trwy ddewis lleoliad ar gyfer eich golygfa:

Ble? (Ar y ddaear, y bydysawd, eich stryd, eich tŷ? Byddwch mor fanwl â phosib).

Pwy hoffwn i fod?

Pwy sydd gyda mi yn fy stori? (Pwy ydych chi'n cwrdd? Pwy yw dihiryn y darn? Ai chi yw'r unig arwr?)

Beth fyddwn i'n ei wneud?

Beth yw'r broblem y mae'n rhaid i mi ei goresgyn?

Ar ôl i chi nodi y syniadau hyn, dechreuwch ysgrifennu. Gosodwch derfyn amser i'ch hun a pheidiwch â phoeni am unrhyw beth arall, dim ond ysgrifennu. Dylai hyn helpu i lacio'r cyhyrau creadigol.

GEIRFA THEATR:

Dyma rai termau a geiriau defnyddiol wrth wyllo'r fideos a dechrau ysgrifennu:

A

Acen Arddull o siarad sy'n dynodi lle mae rhywun yn byw/ble mae rhywun wedi ei fagu.

Addasu Mae addasu darn o waith yn golygu bod y ffurf greadigol wedi cael ei newid, e.e addasu nofel yn ddrama lwyfan, neu sioe gerdd yn ffilm.

Adolygydd Person sy'n barnu ac yn ysgrifennu adolygiadau o weithiau llenyddol neu artistig.

Ail-ddrafftio Y broses o ddrafftio (y ddrama) eto mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn digwydd lawer gwaith yn ystod y broses o ysgrifennu dramâu ac mae'n aml yn parhau i'r cyfnod ymarfer.

Alexander Zeldin Awdur a chyfarwyddwr theatr a ffilm. Gwnaeth waith yn Rwsia, De Korea a'r Dwyrain Canol yn ogystal ag yng Ngŵyl Napoli, a bu'n darlithio yn Ysgol Actio East 15. Bu hefyd yn gweithio fel cyfarwyddwr cynorthwyol i Peter Brook a Marie-Helene Estienne.

Alistair McDowall Dramodydd a gafodd ei fagu yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Derbyniodd Wobr Bruntwood yn 2011 am ei ddrama Brilliant Adventures.

April De Angelis Dramodydd o Loegr sy'n rhannol o dras Siciliaidd. Fe raddiodd o Brifysgol Sussex ac fe hyfforddwyd hi yn Ysgol Actio East 15.

Artist Cyswllt yw rhywun sy'n cael ei gefnogi gan leoliad neu gwmni, i ddatblygu eu ymarfer creadigol. Bydd hyn o bosib yn arwain at i'r unigolyn gael eu comisiynu i ddatblygu, cynhyrchu neu guradu gwaith yn benodol ar gyfer y sefydliad penodol hwnnw.

Artist Llawrydd Person sydd ddim yn gweithio i un cwmni yn unig, ond a fydd fel arfer yn chwilio am waith drwy ffyrdd gwahanol. Gall hyn olygu eich bod chi'n actor ond hefyd yn gyfarwyddwr, eich bod chi'n awdur ond hefyd yn arweinydd theatr ieuenctid. Oherwydd natur y cytundebau tymor byr hyn weithiau, gall hefyd olygu na fyddwch yn gweithio trwy'r amser, ac yn gyson yn chwilio am lwybrau cyflogaeth newydd yn eich diwydiant / arbenigedd.

Awditoriwm Y rhan o'r theatr lle mae'r gynulleidfa yn eistedd yn ystod y perfformiad, a elwir hefyd yn "dŷ". Mae'r gair yn tarddu o'r Lladin; Audio - "Rwy'n clywed".

B

BBC Writersroom Menter gan y BBC sy'n helpu i ddarganfod, datblygu a hyrwyddo talent ysgrifennu newydd a phrofiadol.

Belarus Free Theatre Grŵp theatr tanddaearol yn Belarws. O dan y system wleidyddol gyfredol nid yw'r cwmni wedi cofrestru'n swyddogol, dim adeilad, nac unrhyw gyfleusterau eraill. Fel rheol, cynhelir ymarferion a pherfformiadau (bob amser yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd) yn gyfrinachol mewn fflatiau preifat bach, ac mae'n rhaid newid y lleoliadau'n gyson, oherwydd diogelwch a'r risg o gael eu erlyn.

Big Finish Productions Cwmni o Brydain sy'n cynhyrchu llyfrau llafar a dramâu clywedol wedi'u seilio'n bennaf ar ffuglen wyddonol.

Bryony Kimmings Artist o Brydain sy'n byw yn Llundain a Swydd Caergrawnt. Mae hi'n artist cyswllt yn y Soho Theatre ac mae hi'n creu gweithiau celf aml-blattform sy'n ysgogi newid.

Bwa y stori yw'r ffordd y mae llinyn y stori yn datblygu yn ystod y ddrama. Gall hefyd fod yn benodol i daith un cymeriad a'u datblygiad personol drwy'r ddrama; bwa/arc y cymeriad yw hwn.

Canolfan Gelfyddydau Chapter Lleoliad aml-gelfyddydol yn ardal Treganna yng Nghaerdydd sy'n cyflwyno, cynhyrchu a hyrwyddo celf rhyngwladol, perfformiad byw a ffilm ochr yn ochr â gofod cymdeithasol deinamig.

Canolfan Mileniwm Cymru Canolfan gelfyddydol sydd wedi'i lleoli yn ardal Bae Caerdydd. Mae'r ganolfan yn cyflwyno perfformiadau o opera, bale, dawns gyfoes, comedi, theatr a sioeau cerdd. Mae'n gartref i wyth cwmni gan gynnwys Cerddorfa Genedlaethol Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.

Cefndir Yr hanes neu'r stori gefndirol a grëwyd ar gyfer cymeriad ffuglennol mewn llyfr, theatr, ffilm neu deledu.

Clown / Clownio Mewn theatr, mae clownio yn pwysleisio cymeriad a pherthnasau yn hytrach na sgiliau syrcas. Portreadau personol o ffolineb dynol ydyn nhw, felly mae nhw'n ceisio ennyn empathi gan gynulleidfa.

Comisiwn Pan fydd theatr, cwmni neu gynhyrchydd yn gofyn i awdur greu drama ar eu cyfer.

Cwmni Preswyl yw gwmni theatr sy'n gweithio o fewn adeilad theatr arall e.e Pluen oedd cwmni preswyl cyntaf Theatr y Sherman. Roeddent yn bodoli fel cwmni ar wahân ond yn defnyddio adeilad y Sherman at ddibenion megis ymarferion a chyfarfodydd.

Cydweithio Y weithred o weithio gyda rhywun i gynhyrchu rhywbeth, e.e awdur a chyfarwyddwr yn cydweithio i ddyfeisio drama.

Cyfarwyddiadau Llwyfan Cyfarwyddyd yn nhestun y ddrama sy'n nodi symudiad neu safle i actor, neu effeithiau sain/goleuo.

Cyfarwyddwr Y person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am bob agwedd artistig o'r ddrama / ffilm, a byddant yn cynorthwyo'r actorion, dylunydd set, dylunydd gwisgoedd, dylunydd sain ayyb i ddod â'u gweledigaeth ynghyd yn y cynhyrchiad.

Cyfarwyddwr Artistig Yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddewis rhaglen artistig cwmni/theatr penodol.

Cyfnewid Dyma pryd mae rhywbeth yn digwydd rhwng dau neu fwy o gymeriadau ar y llwyfan. Gallai fod trwy gyfrwng deialog neu gallai fod ar ffurf arall e.e dawns neu gân.

Cyngor Celfyddydau Sefydliad llywodraethol sy'n ymroddedig i hyrwyddo'r celfyddydau; yn bennaf trwy ariannu artistiaid lleol, dyfarnu gwobrau, a threfnu digwyddiadau celfyddydol. Mae gan bob gwlad yn y DU eu cyngor celfyddydau eu hunain gyda nodau ac enwau ychydig yn wahanol.

D

Datblygiad Creadigol Term a ddefnyddir i ddisgrifio sut rydych chi'n datblygu fel artist trwy'ch gwaith.

David Bowie Canwr, cyfansoddwr ac actor o Loegr (8 Ionawr 1947 - 10 Ionawr 2016). Mae'n cael ei ystyried yn un o gerddorion mwyaf dylanwadol yr 20fed ganrif. Daeth cyflwyniad gweledol yn rhan nodweddiadol o'i berfformiadau, a chafodd ei gerddoriaeth a'i grefft ar lwyfan effaith sylweddol ar gerddoriaeth boblogaidd.

Deialog Sgwrs rhwng dau neu fwy o bobl mewn llyfr, drama neu ffilm.

Digwyddiad Pan mae rhywbeth yn digwydd, penderfyniad neu ddarganfyddiad sy'n newid y ffordd y mae'r prif gymeriad yn dilyn ei nod o fewn y stori.

Dôl Budd-dal a delir gan y wladwriaeth i'r di-waith.

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU- TAFLENNI FFEITHIAU

Drama i ddau (Two Hander) Term ar gyfer drama gyda dau gymeriad yn unig.

Dramatwrg Golygydd llenyddol sy'n gweithio gydag awduron ac yn golygu testunau.

Dŵch (Blackout) Pan fydd yr holl oleuadau wedi'u diffodd ar y llwyfan. Fel arfer yn nodi newid amser, newid lleoliad neu ddiwedd yr olygfa.

Dychan (Caricature) Portread o gymeriad mewn perfformiad lle mae rhai nodweddion trawiadol yn cael eu gorliwio er mwyn creu effaith ddigrif neu grotesg.

Dyfeisio Dull o greu theatr lle mae'r perfformiad yn cael ei greu drwy waith byrfyfyr cydweithredol yn hytrach na gwaith un awdur.

E

East 15 Acting School Ysgol ddrama yn Loughton, Essex. Mae'n cynnig hyfforddiant mewn actio, cyfarwyddo, gwneud ffilmiau a theatr dechnegol.

Eddie Murphy Actor, digrifwr a chanwr Americanaidd a ddaeth i'r amlwg ar y rhaglen Saturday Night Live. Mae wedi lleisio cymeriadau megis Donkey yn Shrek, a'r ddraig Tsieineaidd Mushu yn y ffilm Disney, Mulan.

Effaith Dieithrio a elwir hefyd yn Verfremdungseffekt. Mae'n ganolog i waith Brecht ac yn defnyddio technegau sydd wedi'u cynllunio i bellhau'r gynulleidfa rhag ymroi'n emosiynol, trwy eu hatgoffa eu bod yn gwylio perfformiad theatraidd.

Eisteddfod Gŵyl lenyddol a chelfyddydol Gymreig a gynhelir mewn lleoliad gwahanol bob blwyddyn.

Eironi Dramatig Pan fydd y gynulleidfa yn ymwybodol o rywbeth nad yw un neu fwy o'r cymeriadau ar y llwyfan yn ymwybodol ohono, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn aml mewn ffordd ddigrif, ond hefyd yn drasig.

F

Forced Entertainment Sefydlwyd ym 1984 ac mae'n cynnwys grŵp o chwe artist o Sheffield sy'n cydweithio i greu theatr a pherfformiadau gwreiddiol. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddatblygu sgiliau creadigol ac i greu perfformiadau eu hunain.

FF

Ffars Dyma fath o gomedi sy'n cynnwys sefyllfaoedd sy'n cael eu gorliwio'n eithafol ac yn annhebygol o ddigwydd yn y pen draw. Mae hefyd yn tueddu i gynnwys hiwmor corfforol cryf, ac arddull berfformio sydd dros ben llestri.

Ffeithiau Mae ffeithiau yn cyfeirio at bethau rydych chi'n eu gwybod am eich cymeriad ac yn gallu eu profi trwy'r testun. e.e gallai fod yn ffaith fod eich cymeriad yn byw yng Nghaerdydd oherwydd ei bod yn dweud hynny yn y ddeialog, ond efallai eich bod wedi penderfynu ei bod yn byw yn Sblot, er nad yw'n 'fffaith' yn y testun.

G

Gagglebabble Cwmni theatr o Gaerdydd sydd wedi ennill sawl gwobr ac sy'n ceisio creu genre difyr o theatr gig ar gyfer oedolion.

Gair llafar Term sy'n cynnwys unrhyw fath o farddoniaeth a adroddir yn uchel, gall gynnwys barddoniaeth draddodiadol ond hefyd ffurfiau mwy modern, tebyg i rap.

Gecko Theatre Cwmni theatr gorfforol sydd wedi ennill gwobrau a chlod rhyngwladol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Artistig Amit Lahav.

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU- TAFLENNI FFEITHIAU

Genre Arddull perfformio a ffordd o gategoreiddio gwahanol fathau o ddrama.

Golygfa Uned o fewn y ddrama ble mae gweithred yn digwydd. Mae drama yn aml wedi ei rhannu i sawl act, a'r act wedyn yn cael ei rhannu'n olygfeydd.

Good Chance Dyma gwmni sy'n ysgrifennu, creu a chynhyrchu gwaith arloesol gydag artistiaid o bob cwr o'r byd dan arweiniad y Cyfarwyddwyr Artistig, Joe Murphy a Joe Robertson.

Gweledigaeth Gair a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae awdur neu gyfarwyddwr yn dychmygu eu gwaith, e.e 'ei gweledigaeth oedd creu drama dywyll oedd yn llawn chwilfrydedd'.

Gŵyl Ymylol Caeredin Gŵyl gelfyddydol fwyaf y byd sy'n digwydd yn flynyddol ym mhrifddinas yr Alban.

I

Is-destun Rhywbeth o fewn cynnwys y ddrama nad yw'n cael ei gyhoeddi'n benodol gan y cymeriadau (neu'r awdur) ond sydd yn rhywbeth mae'r gynulleidfa yn dod i'w ddeall wrth i'r ddrama ddatblygu. Gall is-destun hefyd gyfeirio at feddyliau a chymhellion y cymeriadau sy'n cael eu dweud wrth y gynulleidfa'n uniongyrchol, heb fod y cymeriadau eraill yn ymwybodol.

J

Jeremy O Harris Actor a dramodydd Americanaidd sy'n adnabyddus am ei ddramâu Daddy a Slave Play.

Jamie Foxx Actor Americanaidd, canwr, cyfansoddwr, digrifwr, cyflwynydd teledu, a chynhyrchydd recordiau. Daeth Foxx yn adnabyddus am ei bortread o Ray Charles ac enillodd Wobr Oscar, BAFTA, Gwobr y Screen Actors Guild, Gwobr Ffilmiau y Critics' Choice a Gwobr Golden Globe am yr Actor Gorau.

John Yorke Ef wnaeth greu BBC Writers' Academy. Ar ôl gweithio i Channel 4 a'r BBC mae wedi dod â dramâu fel EastEnders, Casualty a Shameless i sgriniau Prydain. Mae ei lyfr Into The Woods yn archwilio strwythur adrodd straeon, a ffurfiau naratif.

K

Kiri Pritchard-McLean Mae hi'n ddigrifwr ac awdur o Gymru. Fe'i ganed yng Nghaerloyw, ac fe'i magwyd ar ynys Ynys Môn yng Ngogledd Cymru. Mae hi wedi perfformio am sawl blwyddyn yn olynol yng Ngŵyl Ymylol Caeredin.

L

LISPA Ysgol ddrama a oedd yn cynnig rhaglenni hyfforddi ar ddyfeisio theatr yn seiliedig ar ddysgeidiaeth theatr gorfforol yr actor Ffrengig Jacques Lecoq.

Look Back in Anger (1956) Drama realaidd gan John Osborne. Mae'n canolbwyntio ar ddyn ifanc o darddiad dosbarth gweithiol, Jimmy Porter, a'i wraig dosbarth canol Alison. Roedd y ddrama hon yn rhan o fudiad yr "Angry Young Men".

LL

Lleoliad Dyma lle mae golygfa neu ddrama yn digwydd. Efallai ei fod eisoes yn y sgript neu gall fod yn rhywbeth y mae'r cyfarwyddwr / perfformiwr yn penderfynu arno.

Llinell o'r neilltu (Aside) Llinellau y mae actor yn eu siarad â'r gynulleidfa, nad ydy'r cymeriadau eraill ar y llwyfan i'w clywed.

Llinyn Storiol yw thema neu'r nodwedd sy'n cysylltu'r plot drwy gydol y stori.

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU– TAFLENNI FFEITHIAU

Llwyfan Bwa Proseniwm Llwyfan traddodiadol, ble mae llen yn hongian rhwng y perfformiad a'r gynulleidfa, a'r ardal o flaen y llen wedi ei fframio gan y bwa.

M

Mathilde Lopez Hyfforddwyd hi yn Central Saint Martins mewn Dylunio Perfformiad, ac mae ganddi radd Meistr mewn Cyfarwyddo Theatr o Goleg Birkbeck. Hi yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig August 012, cwmni theatr arloesol sydd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd.

Matthew Lopez Dramodydd ac awdur sgrin Americanaidd. Cafodd ei ddrama The Inheritance, a gyfarwyddwyd gan Stephen Daldry, ei pherfformio am y tro cyntaf yn yr Young Vic yn Llundain yn 2018, lle cafodd ei galw'n "ddrama Americanaidd bwysicaf y ganrif."

Mererid Hopwood Bardd o Gymru, a hi oedd y fenyw gyntaf erioed i ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, yn 2001.

Michaela Coel Actores, awdur, cyfarwyddwr, a chynhyrchydd o Loegr. Mae hi'n fwyaf adnabyddus am greu a serennu yn y cyfresi Chewing Gum (a ysgrifennwyd yn wreiddiol fel sioe lwyfan) ac I May Destroy You.

Monolog (Soliloquy) Araith o fewn drama wedi'i chyflwyno gan un actor ar ei ben ei hun ar y llwyfan.

Mynegiadaeth Almaeneg Mudiad celfyddydol o ddechrau'r ugeinfed ganrif a oedd yn pwysleisio teimladau neu syniadau mewnol yr artist yn hytrach nag efelychu realiti.

N

Naturiolaeth

i) Mae perfformiad naturiolaid (sydd fel arfer yn dilyn dulliau Stanislavski) yn ei wneud yn ofynnol i'r actor ddeall ac ymgorffori pob agwedd ar fywyd y cymeriad yn llwyr.

ii) Mae dyluniad goleuo naturiolaid yn ei wneud yn ofynnol i osod lampau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ble byddai'r golau yn dod ohono yn naturiol/yn y lleoliad go iawn.

iii) Nod dyluniad set naturiolaid yw atgynhyrchu realiti mor agos â phosib.

Nodiadau Adborth a roddir gan rywun megis Rheolwr Llenyddol, Dramatwrg neu Gyfarwyddwr i'r dramodydd neu actor.

Noson Scratch Noson anffurfiol sy'n rhoi cyfle i awduron brofi eu drama o flaen cynulleidfa.

NTW National Theatre of Wales yw'r cwmni iaith Saesneg ar gyfer gwaith cenedlaethol yng Nghymru. Enw'r cwmni cyfatebol yn Gymraeg yw Theatr Genedlaethol Cymru.

O

Ochr y llwyfan (Wings) Ardal oddi ar y llwyfan ble gall y technegwyr/criw llwyfan weithio, a ble bydd actorion yn aros i fynd ar y llwyfan.

Omidaze Theatre (Oh My Days!) Cwmni sy'n cael ei redeg gan Yvonne Murphy (cyfarwyddwr theatr, cynhyrchydd, ymarferydd, hwylusydd ac artist) sy'n creu amrywiaeth o bethau o gynrychiadau i strategaethau dysgu creadigol.

Ovalhouse Theatr Off-West End yn ardal Lambeth yn Llundain.

P

Plot Prif ddigwyddiadau drama, nofel, ffilm, neu waith tebyg, a ddyfeisiwyd ac a gyflwynwyd gan yr awdur fel dilyniant.

Pitsh Pan fydd awdur yn ceisio perswadio cynhyrchydd i ymgymryd â'u gwaith drwy amlinellu syniad penodol.

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU DRAMAU– TAFLENNI FFEITHIAU

Peilot Rhaglen deledu neu radio a wneir i brofi ymateb y gynulleidfa cyn cynhyrchu cyfres gyfan.

Promenâd Math o lwyfannu lle mae'r gynulleidfa'n symud o gwmpas y gofod perfformio / lleoliad ac yn gweld y ddrama mewn amrywiaeth o wahanol leoedd.

R

Realaeth yw cyflwyno darlun cywir o'r byd go iawn, yn hytrach na dehongliad artistig mewn unrhyw arddull arall.

Richard Pryor (1 Rhagfyr, 1940 - 10 Rhagfyr, 2005) Digrifwr stand-yp, actor ac awdur Americanaidd. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r digrifwyr stand-yp mwyaf dylanwadol erioed.

Rh

Rheolwr Llenyddol Mae'r person hwn yn gyfrifol am ddelio gyda sgriptiau (gan gynnwys eu darllen a rhoi adborth), yn ogystal â chreu perthnasau â dramodwyr, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr artistig.

Rheolwr y Cynhyrchiad Y person sy'n cynllunio, yn cydlynu ac yn rheoli'r broses gynhyrchu fel bod y cynhyrchiad yn cael ei gyflawni mewn pryd ac o fewn y gyllideb.

S

Safle-benodol Unrhyw fath o gynhyrchiad theatrig sydd wedi'i gynllunio i'w berfformio mewn lleoliad heblaw theatr arferol.

Sera Moore Williams Mae hi'n ddarlithydd, perfformiwr, awdur a chyfarwyddwr ac mae wedi gweithio a theithio ledled y byd gyda nifer o gwmnïau theatr gan gynnwys nifer fawr o gynhyrchiadau dros gyfnod o 10 mlynedd gyda Brith Gof.

Sgript Cymru Cwmni theatr o Gymru a oedd yn arbenigo mewn ysgrifennu newydd yn Gymraeg a Saesneg gan ddramodwyr Cymreig neu oedd yn byw yng Nghymru. Cafodd y cwmni ei greu yn 2000 ac roedd wedi'i leoli yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter yng Nghaerdydd, tan 2007 pan unodd â'r Sherman.

Sgwat Mae'r term yn cyfeirio at dŷ (neu ddarn o dir) ble mae person nad yw'n berchenog arno wedi cymryd meddiant ohono/yn byw yno. Gall hyn fod am resymau sy'n cynnwys protest a thlodi.

Sidney Poitier Actor Bahamaidd-Americanaidd, cyfarwyddwr ffilm, a llysgennad. Yn 1964, Poitier oedd yr actor gwrywaidd du ac Affro-Bahamaidd cyntaf i ennill Gwobr Academy am yr Actor Gorau. Mae wedi cael ei enwebu chwe gwaith ar gyfer Gwobr Golden Globe am yr Actor Gorau a BAFTA am yr Actor Tramor Gorau - gan ennill bob tro.

Stan's Café Grŵp o artistiaid o amrywiaeth o ddisgyblaethau yn Birmingham, er mai ymarferwyr theatr ydynt yn bennaf.

Stephen Daldry Cyfarwyddwr a chynhyrhydd ffilm, theatr a theledu. Mae wedi ennill tair Gwobr Olivier am ei waith yn y West End a dwy Wobr Tony am ei waith ar Broadway. Cychwynnodd ei yrfa yn y Sheffield Crucible, cyn mynd ymlaen i weithio yn y Library Theatre Manceinion, Liverpool Playhouse, Stratford East, Oxford Stage, a Gŵyl Ymylol Caeredin. Bu hefyd yn Gyfarwyddwr Artistig Theatr y Royal Court a'r Gate Theatre.

T

Taking Flight Theatre Cwmni theatr o Gaerdydd sy'n gwneud cynhyrchiadau theatr beiddgar, anarferol gyda pherfformwyr byddar, a pherfformwyr anabl.

Tâp Gaffa Tâp gludiog gwrth-ddŵr cryf.

Teithio (Cynhyrchiad ar daith) Cynhyrchiad a gyflwynir mewn gwahanol leoliadau. Bydd maint/graddfa y cynhyrchiad yn ddibynol ar yr adeiladau y maent yn ymweld â nhw, o brif theatrau i neuaddau pentref ac ysgolion.

Tensiwn Dramatig yw sut rydych chi'n cadw diddordeb y gynulleidfa yn stori eich drama. Mae'n ymdeimlad cynyddol o ddisgwyliad o fewn y ddrama, teimlad bod y stori'n adeiladu tuag at ryw beth cyffrous.

Theatr Clwyd Theatr yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint sy'n cynhyrchu gwaith eu hunain yn ogystal a chyflwyno amrywiaeth o gynhyrchiadau eraill yn eu prif dŷ a'u stiwdio.

Theatr Epig Mudiad theatrig a fu'n boblogaidd rhwng dechrau a chanol yr ugeinfed ganrif. Mae'n pwysleisio persbectif ac ymateb y gynulleidfa i'r darn trwy amrywiaeth o dechnegau sy'n achosi iddynt ymgysylltu'n unigol mewn ffordd wahanol. Bwriad hyn yw i annog cynulleidfa i weld eu byd fel y mae.

Theatr Dolman Theatr gymunedol yng Nghasnewydd, ac sydd ag awditoriwm â 400 o seddi, tair ystafell ymarfer fawr a stiwdio 60 sedd.

Theatr Gig Drama ble bydd cerddoriaeth fyw yn cael ei blethu o fewn y cynhyrchiad.

Theatr Glan yr Afon Theatr wedi ei lleoli ger yr Afon Wysg yng Nghasnewydd sydd â 2 awditoriwm (prif dŷ a stiwdio).

Theatr Gorfforol Dyma genre o berfformio sy'n defnyddio'r corff (yn hytrach na'r gair llafar) fel y prif fodd o berfformio a chyfathrebu â chynulleidfa. Mae ffocws ar naratif a defnydd o'r gair llafar yn ei wahaniaethu oddi wrth ddawns.

Theatr Volcano Sefydliad a arweinir gan artistiaid sy'n archwilio syniadau a chysylltiadau cymdeithasol trwy berfformio a chyfranogi. Wedi'i leoli yn Abertawe, mae'r cwmni wedi meddiannu adeilad diwydiannol sefur lle mae'n creu gwaith gwreiddiol ac yn cyflwyno gwaith gan gwmnïau eraill hefyd.

The Other Room yw theatr dafarn gyntaf Caerdydd sy'n cyflwyno gwaith newydd a dramâu modern o 1950 ymlaen. Mae'r gynulleidfa'n agos iawn at y perfformwyr, gyda dim ond 45 sedd yno.

Third Angel Sefydlwyd yn 1995 ac mae'n gwmni theatr wedi'i leoli yn Sheffield. Mae'r cwmni'n gwneud gwaith sy'n cwmpasu perfformiad, theatr, celf fyw, ffilm, celf fideo, dogfen, ffotograffiaeth a dylunio. Maent yn adnabyddus am eu gwaith arbrofol sy'n parhau i fod yn hygyrch i gynulleidfa brif ffrwd.

Tin Shed Theatre Co Cwmni sy'n creu theatr hynod gorfforol wedi'i leoli yng Nghasnewydd, a sy'n creu gwaith mewn adeiladau gwag, yn trawsnewid gofodau, ac yn llenwi theatrau a stiwdios gyda gwaith newydd yn ogystal ag addasiadau cyffrous wedi'u hysbrydoli gan destunau sy'n bodoli eisoes.

Told by An Idiot Cwmni theatr, a sefydlwyd ym 1993. Mae nhw'n "creu theatr i unrhyw un sy'n anadlu."

Torchwood Rhaglen deledu ffuglen wyddonol Brydeinig a grëwyd gan Russell T Davies sydd hefyd yn gyfres o lyfrau llafar gan gwmni Big Finish.

W

Whoopi Goldberg Actor, digrifwr, awdur a seren deledu Americanaidd. Mae Goldberg yn un allan o ddim ond un ar bymtheg o ddiddanwyr sydd wedi ennill Gwobr Emmy, Gwobr Grammy, Oscar, a Gwobr Tony (EGOT).

Y Bedwaredd Wal Wal ddychmygol wedi'i gosod lle mae'r gynulleidfa'n gweld y llwyfan. Mae confensiwn y bedwaredd wal yn gonfensiwn sefydledig mewn theatr realistig fodern, lle mae'r actorion yn cyflawni eu gweithredoedd heb gydnabod y gynulleidfa. Pan mae'r cast yn annereh y gynulleidfa yn uniongyrchol, dywedir mai 'Torri'r Bedwaredd Wal' yw hyn.

Y Celfyddydau Mae'r term yma'n cyfeirio at lawer o wahanol ffurfiau creadigol gan gynnwys y celfyddydau gweledol (e.e pensaernïaeth, paentio a ffotograffiaeth), celfyddydau llenyddol (e.e nofelau, drama, a barddoniaeth), celfyddydau perfformio (e.e dawns, cerddoriaeth, a theatr). Mae hefyd yn bosib cyfeirio at 'Y Celfyddydau' fel diwydiant, i.e "Rwy'n gweithio yn y celfyddydau".

Ymchwil a Datblygu (R&D - Research and Development) Defnyddir y term i ddisgrifio'r broses y mae tîm creadigol yn cymryd rhan ynddi wrth greu gwaith newydd. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus ond yn bennaf ar gyfer rhoi cynnig ar syniadau newydd neu gyflwyno syniad i gynhyrchwyr neu arianwyr eraill.

Ffotograffau Tracy Harris (1)



Ffotograffau Tracy Harris (2)



Ffotograffau Tracy Harris (3)





Ffotograffau Tracy Harris (4)



Ffotograffau Tracy Harris (5)

